AC(3)-13-09(p3) : 15 Hydref 2009

Hydref 2009
www.wao.gov.uk

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Diweddariad ar Raglen Waith yr Archwilydd Cyffredinol ac Ymgynghoriad ar Astudiaethau yn y Dyfodol

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Gwaith cyfredol | 3 |
| Gwaith yn y dyfodol | 6 |

1. Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r papur hwn sy'n darparu:
   - manylion y gwaith sy'n mynd rhagddo a fydd ar gael i'w ystyried gan y Pwyllgor Archwilio hyd at doriad haf 2010 a thu hwnt;
   - rhestr o bynciau eraill yr wyf yn ei defnyddio fel sail ar gyfer ymgynghori ehangach ar waith gwerth am arian Swyddfa Archwilio Cymru dros y tair blynedd nesaf.

## Gwaith cyfredol

2. Mae Ffigur 1 yn disgrifio'r astudiaethau sy'n ymwneud â gwerth am arian a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru ar hyn o bryd ac sy'n debygol o arwain at adroddiad cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn yn ychwanegol at brosiectau lleol pwrpasol y cytunwyd arnynt fel rhan o'm strategaethau archwilio blynyddol ar gyfer y sefydliadau unigol a archwilir gennyf.

3. Wrth ystyried y rhaglen waith bresennol a syniadau ar gyfer gwaith yn y dyfodol, fy nod yw sicrhau cydbwysedd da rhwng meysydd astudio amrywiol a mathau o astudiaethau. Argymhellodd yr Adolygiad Cymheiriaid o Swyddfa Archwilio Cymru bod angen sicrhau cydbwysedd clir o ran fy rhaglen waith gyffredinol. Yn y cyd-destun hwnnw, rwyf yn ymwybodol o'r farn bod fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian wedi canolbwyntio'n ormodol ar y GIG.
   Cyn sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005, nid oedd y Pwyllgor yn gweld adroddiadau a oedd yn grynodebau cenedlaethol o waith archwilio lleol yn y GIG, oherwydd lluniwyd yr adroddiadau hynny gan y Comisiwn Archwilio.
   O ran fy adroddiadau ers 2005, bu tua un rhan o dair ohonynt yn astudiaethau cenedlaethol o faterion a oedd yn ymwneud ag iechyd yn unig, sy'n gyson â lefel y gwariant ar y GIG yng Nghymru mewn perthynas â chyllideb gyffredinol Llywodraeth y Cynulliad. Yn ogystal, rwyf wedi ceisio datblygu amrywiaeth o astudiaethau o faterion sy'n effeithio ar fwy nag un sector neu fath o sefydliad. Un o fanteision y ffaith mai Swyddfa Archwilio Cymru yw'r unig sefydliad archwilio ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw hwyluso'r gwaith o lunio adroddiadau o'r fath. Awgrymodd yr Adolygiad Cymheiriaid y dylem lunio mwy o adroddiadau. Cytunaf â hynny. Yn anochel cyfeiria nifer o adroddiadau aml-sector o'r fath at iechyd.

4. Gobeithiaf fod y gwaith parhaus a ddisgrifir yn Ffigur 1, a fy nghynigion ar gyfer gwaith yn y dyfodol, yn rhoi rhywfaint o sicrwydd o ran cydbwysedd cyffredinol fy rhaglen.

**Ffigur 1: Gwaith sy'n mynd rhagddo eisoes**

| **Cyhoeddiadau arfaethedig hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2009** |
|---|
| **Dysgu seiliedig ar waith−gwaith dilynol**<br>A yw Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithredu argymhellion blaenorol y Pwyllgor yn effeithiol i wella trefniadau rheoli ariannol a gweinyddu dysgu seiliedig ar waith, ac i ledaenu'r gwersi a ddysgwyd? |
| **Risgiau o erydu arfordirol a llifogydd llanw**<br>A fydd y Rhaglen Dulliau Newydd a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn sicrhau ffordd i'r sector cyhoeddus yng Nghymru reoli'r bygythiad o erydu arfordirol a llifogydd llanw yn y dyfodol? |
| **Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed**<br>A yw gwasanaethau yn diwallu anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn ddigonol?<br>Cynhaliwyd y gwaith hwn ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn. |
| **Datblygu cynaliadwy −penderfyniadau busnes**<br>A yw proses gwneud penderfyniadau busnes Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi ei hamcanion datblygu cynaliadwy? |
| **Gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Clefyd Coronaidd y Galon**<br>A eir i'r afael â Chlefyd Coronaidd y Galon yng Nghymru yn unol â safonau'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol a chanllawiau polisi eraill?<br>Cynhaliwyd y gwaith hwn ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. |
| **Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2010** |
| **Llywodraethu da mewn llywodraeth leol**<br>Cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ymarfer diagnostig llywodraethu da a gynhaliwyd ar draws llywodraeth leol yng Nghymru. |
| **Darlun o wasanaethau cyhoeddus**<br>Ystyried yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol, a'r themâu allweddol sy'n codi o'n gwaith archwilio diweddar. |
| **Diddymu Cymad**<br>Ystyried y ffactorau a gyfrannodd at ddiddymu'r asiantaeth fenter a leolwyd yng Ngogledd Cymru, a'r gwersi y gellir eu dysgu o hynny. |
| **Gofal heb ei drefnu**<br>A wnaed cynnydd digonol o ran cynllunio a darparu gofal heb ei drefnu o safbwynt y dinesydd?<br>Bydd yr adroddiad hwn yn dwyn ynghyd ganfyddiadau archwilio ar y system gofal heb ei drefnu gyfan, yn cynnwys gofal y Tu Allan i Oriau. |
| **Buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion**<br>A yw buddsoddiad cyfalaf yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i wella adeiladau ysgolion? |
| **Rheoli adeiladau sector cyhoeddus**<br>A yw'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru yn sicrhau bod ei drefniadau rheoli tir ac adeiladau yn ategu gwelliannau mewn effeithlonrwydd a'r gwasanaethau a ddarperir i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau defnyddwyr yn yr 21 ganrif?<br>Mae'r pwnc hwn yn rhan o adolygiad parhaus o drefniadau rheoli asedau sector cyhoeddus, yn dilyn ymlaen o'm harchwiliad o drefniadau rheoli fflyd yn 2008. |
| **Trafnidiaeth − cyflawni prosiectau mawr**<br>A yw'r gwaith o gyflawni prosiectau trafnidiaeth mawr yng Nghymru yn cael ei reoli'n dda gan Lywodraeth y Cynulliad a phartneriaid awdurdod lleol? |

| Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2010 |
|---|
| **Contract Merlin gwaith dilynol**<br>A yw'r contract technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a gwasanaethau newid busnes Merlin yn sicrhau'r buddiannau a fwriadwyd ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad? |
| **Cynllunio at argyfwng −argyfyngau sifil posibl**<br>A yw'r dyletswyddau o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl yn cael eu cyflawni'n effeithiol ar draws y sector cyhoeddus i baratoi Cymru ar gyfer argyfyngau? |
| **I'w gyhoeddi ar ôl mis Ebrill 2010** |
| **Gwasanaethau iechyd meddwl oedolion − gwaith dilynol**<br>A oes tystiolaeth bod y gwaith o gynllunio, rheoli a darparu gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion wedi gwella ers yr adolygiad sylfaenol y cyflwynais adroddiad arno ym mis Hydref 2005?<br>Efallai y byddaf hefyd yn cyhoeddi adroddiad ar wahân ar y materion sy'n ymwneud â thai sydd wedi codi o'r gwaith hwn. |
| **Plismona - gwell gwasanaeth am lai o arian**<br>Ystyried sut y gall awdurdodau'r heddlu a heddluoedd gynnal neu wella eu heffeithiolrwydd gan ddefnyddio llai o adnoddau.<br>Cynhelir y gwaith hwn ledled Cymru a Lloegr, mewn partneriaeth â'r Comisiwn Archwilio. |
| **Hysbysu gofal iechyd**<br>A oes gan y rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd y prosesau ar waith i lwyddo? |
| **Gwireddu buddiannau yn sgîl gweithredu'r contract meddygon ymgynghorol**<br>A yw'r contract meddygon ymgynghorol wedi sicrhau gwerth am arian ar draws y GIG yng Nghymru? |
| **Arian Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd 2007-2013 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd**<br>A yw dull Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o ran gweithredu'r cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn debygol o gael effaith barhaus? |
| **Addysg plant sy’n derbyn gofal**<br>A yw'r camau a weithredir ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ddigonol i sicrhau gwelliant sylweddol yng nghanlyniadau addysgol plant sy’n derbyn gofal? |
| **Cyfranogiad cyhoeddus mewn ailgylchu a chompostio**<br>A yw'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud digon i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl mewn cynlluniau ailgylchu a chompostio i helpu i gyflawni targedau gwastraff? |
| **Arlwyo mewn ysbytai**<br>A yw ysbytai yng Nghymru yn darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon ac effeithiol sy'n adlewyrchu arfer da ac yn cefnogi gwellhad cleifion? |
| **Gwasanaethau tân ac achub**<br>Trosolwg o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sector Tân ac Achub yng Nghymru o ran hyrwyddo gwell diogelwch cymunedol o safbwynt y dinesydd.<br>Bydd yr astudiaeth hon yn defnyddio gwaith arolygu blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru o dan raglen Cymru ar gyfer Gwella. |
| **Menter Twyll Genedlaethol**<br>Cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2008-09. |

| I'w gyhoeddi ar ôl mis Ebrill 2010 (Parhad) |
| --- |
| **Safon Ansawdd Tai Cymru**<br>Archwilio'r cynnydd a wneir gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru i wella safon a chyflwr ffisegol eu stoc tai. Bydd y gwaith yn alinio'n agos ag adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o gynnydd yn erbyn y Decent Homes Standard yn Lloegr.<br>Mae'r gwaith hwn yn mireinio fy nghynlluniau i archwilio pwnc tai fforddiadwy yn fanylach, sef gwaith a ohiriwyd gennyf yn sgîl adolygiad Essex o'r pwnc hwn yn 2008. |
| **Maeth mewn ysgolion**<br>Archwilio maeth mewn ysgolion, a allai gynnwys holl weithgarwch arlwyo ysgolion, yn cynnwys brecwast am ddim, yn ogystal ag addysg am faeth. |

5. Nodais yn flaenorol gynlluniau ar gyfer gwaith ar gontract deintyddol y GIG a buddsoddiad cyfalaf y GIG. Oherwydd ad-drefnu'r GIG rwyf wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r gwaith ar reoli contract deintyddol y GIG ar hyn o bryd, er bod modd cynnal archwiliad ehangach o b'un a yw'r contract yn cyflawni ei nodau datganedig o hyd. Hefyd, gohiriwyd gwaith ar fuddsoddiad cyfalaf y GIG i ystyried y newidiadau sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu'r GIG. Yn hytrach, rwyf yn ystyried y potensial ar gyfer gwaith yn y dyfodol ar Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol Llywodraeth y Cynulliad a'i chydberthynas â rhaglenni buddsoddi cyfalaf eraill.

## Gwaith yn y dyfodol

6. Mae'r Adolygiad Cymheiriaid yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gwaith archwilio yn canolbwyntio'n fwy ar effeithlonrwydd yn yr amgylchiadau economaidd presennol. Cytunaf â hynny. Ar 20 Mai 2009 lansiais strategaeth dair blynedd newydd ar gyfer gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, sef *'Effaith barhaus mewn adeg o newid'*. Bydd y chwe thema graidd a fydd yn tanategu gwaith y Swyddfa dros y tair blynedd nesaf yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd, fel a ganlyn:
   - helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella'r ffordd y maent yn defnyddio adnoddau o fewn cyfyngiadau cynyddol yr economi a'r amgylchedd;
   - hyrwyddo cymariaethau gwell, data perfformiad clir, ac adroddiadau hygyrch i'r rhai sy'n penderfynu a dinasyddion;
   - hyrwyddo canlyniadau gwell i ddinasyddion drwy weithio ar draws ffiniau i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cynllunio, eu darparu a'u hadolygu;
   - cefnogi'r broses o ddiwygio'r GIG drwy roi sicrwydd, heriau a diagnosis amserol o safon uchel;
   - cefnogi'r gwaith o roi strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar waith yn uniongyrchol a thrwy eraill;
   - helpu i sicrhau bod y broses o weithredu'r Mesur Llywodraeth Leol arfaethedig yn arwain at wasanaethau a chydberthnasau gwell.

7. Bydd ymrwymiadau presennol yn cyfyngu ar faint o waith newydd y gall Swyddfa Archwilio Cymru ei ddechrau yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol hon. Ni fyddai ychwaith yn bosibl, hyd yn oed yn y tymor canolig i'r hirdymor, ac o fewn yr adnoddau presennol, i archwilio'r holl bynciau a restrir yn Ffigur 2. Wrth flaenoriaethu'r pynciau hyn, ac unrhyw bynciau eraill, byddaf yn ystyried:

- lefelau diddordeb a phryder y cyhoedd/rhanddeiliaid, a pha mor ddifrifol yw'r materion a'r risgiau cysylltiedig, yn gyffredinol;
- p'un a yw Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa i hwyluso neu gyflawni canlyniad addas, a ph'un a yw'n well gweithio'n unigol neu gyda chyrff adolygu allanol eraill;
- amseroldeb y gwaith;
- y graddau y bydd yr adolygiad arfaethedig yn cyfrannu at amcanion strategol Swyddfa Archwilio Cymru;
- Cydbwysedd cyffredinol cwmpas yr archwiliad ar draws y meysydd polisi gwahanol.

8. Fel bob amser, mae angen i mi allu ymateb yn hyblyg i amgylchiadau cyfnewidiol neu geisiadau penodol am waith. Fodd bynnag, erbyn dechrau 2010, bwriadaf fapio rhaglen waith graidd i gynnwys cylch bywyd strategaeth bresennol Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd cefnogi'r sector cyhoeddus o ran arloesedd, effeithlonrwydd ac arbed costau yn thema ganolog. Rwyf hefyd yn bwriadu gwneud defnydd hyd yn oed yn well o'm pwerau archwilio drwy gynnal mwy o astudiaethau sy'n torri ar draws ffiniau sefydliadol a/neu'n archwilio'r gwaith o ddarparu gwasanaeth cyfan. Rwyf eisoes wedi penderfynu bwrw ymlaen gyda gwaith cynllunio manylach i archwilio effaith y dirwasgiad economaidd ac ymatebion iddo, a'r cyfyngiadau ariannol sylweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rwyf hefyd yn bwriadu bwrw ymlaen ar unwaith â gwaith ar ofal iechyd parhaus. Mae costau gofal iechyd parhaus yn sylweddol, ac yn rhoi pwysau cynyddol ar gyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

9. Yn ddiweddar rwyf wedi bod yn cymryd rhan yng ngwaith Grŵp Arweinyddiaeth Weithredol Llywodraeth y Cynulliad ar arloesedd ac effeithlonrwydd. Rwyf wedi gofyn i staff Swyddfa Archwilio Cymru geisio dadansoddi cyfanswm gwariant gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i helpu i nodi cyfleoedd i sicrhau effeithlonrwydd. Mae nifer o'r pynciau yn Ffigur 2 yn cynnwys canolbwyntio'n gryf ar gost-effeithlonrwydd. I gefnogi fy ngwaith archwilio lleol yn y GIG, rwyf hefyd yn bwriadu datblygu deunyddiau a fydd yn helpu archwilwyr i ganfod cyfleoedd eraill i sicrhau effeithlonrwydd. Bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn cysylltiad agos ag asiantaethau archwilio, arolygu a gwella eraill ledled y Deyrnas Unedig i archwilio'r potensial ar gyfer meincnodi a chymharu costau.

Mae'r pynciau posibl yn cynnwys:

- defnyddio staff dros dro a staff asiantaeth;
- defnyddio'r clinig cleifion allanol a'r ystafell lawdriniaeth;
- defnyddio'r feddygfa achosion dydd;
- rheoli derbyniadau a hyd yr arhosiad;
- y defnydd o ynni a dŵr;
- rheoli gwastraff clinigol.

**10.** Rwyf wedi dewis peidio ag archwilio rhai pynciau oherwydd y risg o orgyffwrdd ag adolygiadau eraill. Er enghraifft, nododd trafodaethau o fewn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) feysydd o bryder cyffredin, yn cynnwys gwasanaethau canser a strôc yng Nghymru. Oherwydd cynlluniau AGIC ar gyfer gwaith yn y meysydd hyn, rwyf wedi penderfynu peidio â chynnwys unrhyw gynigion am waith sylweddol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i weithio'n agos ag AGIC i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i rannu gwybodaeth ac arbenigedd. Pe bawn i'n penderfynu bwrw ymlaen ag adolygiad o wasanaethau ar gyfer pobl hŷn sy'n cefnogi heneiddio gweithgar, byddai'r gwaith hwn yn cynnig cyfleoedd cydweithio pellach ag AGIC ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

**11.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Aelodau'r Pwyllgor wedi mynegi diddordeb penodol mewn nifer o bynciau, yn cynnwys:

- Cyllid addysg uwch: Rwyf yn ymwybodol o'r risg o ddyblygu gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a gadeirir gan yr Athro Merfyn Jones, sydd wedi bod yn adolygu addysg uwch yng Nghymru. Fodd bynnag, yn erbyn cefndir y dirwasgiad economaidd, gall fod yn werth archwilio cyfraddau cyfranogi a chwblhau mewn addysg uwch yn fanylach.
- Cydraddoldebau: Byddai Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa dda i archwilio'r graddau y mae cyrff cyhoeddus ledled Cymru yn cydymffurfio â'u dyletswyddau cydraddoldebau. Fodd bynnag, amser a ddengys a fydd Mesur Cydraddoldebau 2009, sydd â'r nod o symleiddio ac atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol ar gydraddoldebau, yn cael ei dderbyn gan Senedd y DU cyn yr Etholiad Cyffredinol nesaf.
- Cymorth ar gyfer y trydydd sector: Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal gwaith datblygu pellach ar y pwnc hwn. Dros y misoedd nesaf, byddaf yn ystyried rhinweddau cymharol adolygiad manwl yn y maes hwn.

- Tlodi plant ac arian Cymorth: Mae gan rywfaint o'm gwaith diweddar a pharhaus, er enghraifft y gwaith ar Gymunedau yn Gyntaf neu addysg plant sy'n derbyn gofal, gysylltiadau agos â thema tlodi plant. Roedd fy adolygiad o'r Cynllun Gweithredu Rhiantu yn 2008, a oedd yn cefnogi ymchwiliad gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddadansoddi o ran dosbarthu arian Cymorth. Yn ogystal, yn ddiweddar bu staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwneud â rhywfaint o waith archwilio lleol ar wasanaethau cymorth i deuluoedd yng Nghaerdydd a Rhondda Cynon Taf. Byddai gan unrhyw waith ar y dirwasgiad economaidd ac mewn perthynas â'r bobl ifanc hynny nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth nac Hyfforddiant hefyd gysylltiadau cryf â thema tlodi plant.

  Rwyf yn ymwybodol o gynlluniau ar gyfer strategaeth tlodi plant newydd i Gymru, i'w thanategu gan werthusiad o'r hyn sy'n gweithio ac nad yw'n gweithio o ran rhaglenni cyfredol Llywodraeth y Cynulliad. Byddaf yn trafod yn fanylach â Llywodraeth y Cynulliad sut y gallai fy ngwaith blaenorol fy hun gefnogi'r broses o ddatblygu'r strategaeth tlodi plant newydd. Byddaf hefyd yn archwilio, gyda Llywodraeth y Cynulliad, amseriad a chwmpas gorau posibl unrhyw waith pellach a dargedir yn y maes hwn. Fodd bynnag, am y tro nid wyf wedi cynnwys unrhyw gyfeiriad penodol at dlodi plant ymhlith y rhestr o bynciau yn Ffigur 2.

**12.** Mae Ffigur 2 yn cynnwys nifer o bynciau y byddent yn dilyn ymlaen o waith blaenorol, er enghraifft archwilio datblygiadau o ran rheoli twbercwlosis buchol. Yr adolygiadau dilynol a amlygwyd gennyf yw'r rheini lle rwyf yn rhagweld y caiff cwmpas y gwaith ei ehangu y tu hwnt i ganolbwyntio ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i fy argymhellion blaenorol, neu argymhellion y Pwyllgor. Fodd bynnag, bydd cyfleoedd i gynnal gwaith dilynol ag iddo ffocws manylach ar rai o'r pynciau eraill a ystyriwyd gan y Pwyllgor dros y blynyddoedd diwethaf.

**13.** Gwahoddaf y Pwyllgor i roi syniad i mi o'r pynciau sydd o ddiddordeb penodol i Aelodau, p'un a ydynt wedi'u rhestru yn Ffigur 2 neu beidio. Wrth gyflwyno'r rhestr hon, rwyf wedi gwahaniaethu rhwng adolygiadau a fydd yn cynnwys dull ar draws y sector cyhoeddus, a'r rheini sy'n ymdrin â sector neu bwnc mwy penodol. Yn achos yr astudiaethau o sectorau/pynciau penodol, nid yw hyn yn golygu na fydd y gwaith hwn yn torri ar draws ffiniau sefydliadol a/neu'n archwilio'r gwaith o ddarparu gwasanaeth cyfan. Bydd nifer o'r adolygiadau hyn yn archwilio rôl Llywodraeth y Cynulliad o ran pennu, ariannu a monitro polisïau a strategaethau, a'r camau a gymerir ar draws rhannau eraill o'r sector cyhoeddus i'w gweithredu.

**Ffigur 2: Gwaith posibl yn y dyfodol**

| Adolygiadau ar draws y sector cyhoeddus | |
|---|---|
| **Caffael sector cyhoeddus**<br>Amcangyfrifir bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario £5 biliwn bob blwyddyn ar brynu nwyddau a gwasanaethau. Disgwylir i well arferion caffael wneud cyfraniad allweddol i'r broses o gyflawni'r targed enillion effeithlonrwydd o £600 miliwn a bennwyd yn y ddogfen Creu'r Cysylltiadau.<br><br>Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio p'un a yw'r trefniadau caffael presennol yn sicrhau gwerth gwell am arian. Byddai'r gwaith hwn yn asesu ymddygiad caffael sefydliadau unigol a'r arbedion a gyflawnir drwy well arferion caffael. Byddai'r adolygiad hefyd yn ystyried effeithiolrwydd is-adran Gwerth Cymru Llywodraeth y Cynulliad wrth helpu sefydliadau i sicrhau gwelliannau cynaliadwy o ran caffael. Gall fod cyfleoedd i fanteisio ar waith tebyg a gynhelir gan Audit Scotland a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. | **Ymateb i'r dirwasgiad economaidd a chyfyngiadau ar wariant cyhoeddus**<br>Cai'r gwaith hwn ei gyflawni fesul modiwl, gan archwilio rhai o'r themâu canlynol, neu bob un ohonynt:<br>• ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r dirwasgiad economaidd, yn cynnwys cost-effeithiolrwydd mentrau cymorth busnes a chynlluniau megis ProAct a ReAct (gan adeiladu ar sail adroddiad Mai 2009 y Pwyllgor Menter a Dysgu);<br>• gallu a pherfformiad gwasanaethau cyhoeddus o ran:<br>  – rheoli dadfuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol;<br>  – nodi arbedion effeithlonrwydd;<br>  – y gallu i reoli arloesedd, trefniadau i gynyddu gallu ac adnoddau arloesedd, ac ystyried sut i gymhwyso technegau megis meddwl darbodus am systemau, ac atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau;<br>  – ymateb i effaith y dirwasgiad economaidd o ran galwadau ar wasanaethau cyhoeddus. |
| **Pobl ifanc Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET*)***<br>Gyda chysylltiad agos â'r gwaith ar y dirwasgiad economaidd, byddai'r adolygiad hwn yn ystyried effeithiolrwydd ymdrechion i leihau'r gyfran o bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Ni all un corff cyhoeddus fynd i'r afael â'r mater hwn, a'i ganlyniadau, mewn arwahanrwydd. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio cyd-ymdrechion gwasanaethau cyhoeddus Cymru o ran gwella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. | **Cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldebau**<br>Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio pa mor effeithiol yw cyrff cyhoeddus yng Nghymru o ran cyflawni eu hymrwymiadau o dan ddeddfwriaeth gydraddoldebau, fel cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau. Byddai unrhyw ddatblygiadau pellach o ran y gwaith hwn yn ceisio manteisio ar arbenigedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Efallai y gellid amseru'r gwaith hwn orau i ystyried ymateb y sector cyhoeddus i Fesur Cydraddoldebau 2009, sydd â'r nod o symleiddio ac atgyfnerthu deddfwriaeth gyfredol ar gydraddoldebau. Fodd bynnag, amser a ddengys a gaiff y Mesur hwn ei dderbyn gan Senedd y DU cyn yr Etholiad Cyffredinol nesaf. |

| Adolygiadau ar draws y sector cyhoeddus (Parhad) | |
|---|---|
| **Rhoi'r strategaeth ar waith ac ymgysylltu â'r cyhoedd**<br>Byddai'r gwaith hwn yn dwyn ynghyd ac yn adeiladu ar dystiolaeth o'r anawsterau o roi strategaethau'r sector cyhoeddus ar waith. Gallai'r gwaith hwn gynnwys adolygiad o sut y gall cyrff cyhoeddus ymgysylltu'n well â dinasyddion i ennill cefnogaeth ar gyfer y datblygiadau strategol y bydd eu hangen i ymateb yn effeithiol i'r heriau presennol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus. | **Rheoli perfformiad y sector cyhoeddus**<br>Ni ddylai rheoli perfformiad fod yn ddiben ynddo'i hun. Nod rheoli perfformiad effeithiol yw mesur y pethau cywir ac ymateb i berfformiad gwirioneddol er mwyn gwella canlyniadau. Fodd bynnag, dim ond un agwedd ar sefydliad yw rheoli perfformiad, ac mae angen cyfuno hyn ag arweinyddiaeth gadarn, diwylliant cadarnhaol, a chyfathrebu effeithiol.<br>Byddai'r adolygiad hwn yn archwilio effeithiolrwydd trefniadau rheoli perfformiad ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Canolbwyntid yn benodol ar yr her o reoli perfformiad ar lefel gymunedol, gan edrych ar draws ffiniau sefydliadol. |
| **Archwilio mewnol ar draws y sector cyhoeddus**<br>Diffiniad Sefydliad Byd Eang yr Archwilwyr Mewnol o archwilio mewnol yw: ‘gweithgarwch sicrwydd ac ymgynghori annibynnol a gwrthrychol a gynlluniwyd i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad i gyflawni ei nodau drwy ddefnyddio dull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu’. Byddai'r adolygiad hwn yn cymharu gwasanaethau archwilio mewnol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru o ran eu cwmpas, costau ac ansawdd. Byddai'r gwaith hwn yn nodi arfer da ac ystyried modelau darparu amgen. | **Cymorth ar gyfer y 'trydydd sector' ac ymgysylltu â'r trydydd sector**<br>Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei chynllun gweithredu strategol pedair blynedd ar gyfer y trydydd sector, sef 'Y Trydydd Dimensiwn', ym mis Ionawr 2008. Mae'r ddogfen yn nodi tri maes diddordeb sy'n gorgyffwrdd sy'n diffinio'r gydberthynas rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r trydydd sector (sy'n cynnwys ystod eang o sefydliadau yn cynnwys grwpiau hunangymorth, elusennau, sefydliadau sy'n seiliedig ar ffydd, mentrau cydweithredol a mentrau cymdeithasol). Y tri maes diddordeb hyn yw cymunedau cryfach, gwell polisïau, a gwell gwasanaethau cyhoeddus.<br>Byddai'r adolygiad hwn yn archwilio p'un a yw sefyllfa'r trydydd sector, o ran y cyfraniad a wneir ganddo yn y meysydd hyn, wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad i'r camau gweithredu a nodwyd yn Y Trydydd Dimensiwn. |

| Adolygiadau ar draws y sector cyhoeddus (Parhad) | |
|---|---|
| **Gwasanaethau i bobl hŷn - heneiddio'n weithgar**<br>Byddai'r adolygiad hwn yn ystyried effeithiolrwydd amrywiaeth o wasanaethau'r GIG a gwasanaethau awdurdodau lleol sy'n helpu dinasyddion i fyw bywydau iach, cynhyrchiol ac annibynnol wrth iddynt heneiddio. Gall gwasanaethau effeithiol fod o fudd i'r unigolyn a gallant leihau pwysau eraill o ran costau, megis gofal parhaus. Gallai ein ffocws o ran gwasanaethau'r GIG ymwneud â gofal demensia, atal pobl rhag cwympo a thorri cluniau. Gallai ein ffocws o ran gwasanaethau awdurdodau lleol gwmpasu dysgu gydol oes, cyflogaeth a gwirfoddoli, tai, a buddiannau a lwfansau. Byddai'r gwaith hwn yn ystyried y gwersi o ffyrdd newydd o weithio a'r potensial i ddefnyddio'r ffyrdd newydd hyn o weithio yn ehangach, megis prosiect eiddilwch Gwent a amlygwyd gennyf yn fy adroddiad dilynol diweddar ar Achosion o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal. | **Ateb yr her gwella iechyd**<br>Mae niferoedd sylweddol o bobl yng Nghymru yn dal i ddilyn ffyrdd o fyw a fydd yn cynyddu'r risg y gallant ddatblygu cyflyrau difrifol a chyflyrau lle mae bywyd yn y fantol megis clefyd y galon, canser a strôc. Byddai'r archwiliad hwn yn ystyried a yw Llywodraeth y Cynulliad a chyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud digon i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iechyd ac annog pobl i fyw bywydau mwy gweithgar ac iach. Byddai'r adolygiad yn ystyried themâu penodol megis rhoi'r gorau i ysmygu a gordewdra er mwyn pennu pa mor dda mae camau gweithredu cenedlaethol a lleol wedi cysylltu â'i gilydd a ph'un a yw cyrff y sector cyhoeddus yn cydweithio er mwyn defnyddio ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â'r broblem. |
| **Llywodraethu o gwmnïau sy'n eiddo cyhoeddus**<br>Mae sector cyhoeddus Cymru yn gwario swm sylweddol o arian yn cyllido gweithgareddau cwmnïau a bechnogir yn rhannol ac yn llwyr gan gyrff sector cyhoeddus. Mae'r cwmnïau'n darparu ystod o wasanaethau yn cynnwys gwaredu gwastraff, trafnidiaeth gyhoeddus, hybu twristiaeth a chaffael. Byddai'r astudiaeth hwn yn archwilio a fyddai cyrff ariannu sectorau cyhoeddus yn gosod trefniadau priodol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei siannelu drwy'r cwmnïau a berchnogir gan y sector cyhoeddus ac a geir ei ddefnyddio'n briodol, ac yn cynrychioli gwerth am arian.<br>Yn arbennig, bydd yn ystyried:<br>• bod gan y cyrff ariannu rheolaeth monitro a pherfformiad effeithiol;<br>• bod gan gwmnïau drefniadau llywodraeth gadarn;<br>• bod cwmnïau yn dangos cydymffurfiaeth gydag egwyddorion llywodraethu da sy'n canolbwyntio ar y dinesydd Llywodraeth y Cynulliad. | **Llifogydd mewndirol**<br>Ym mis Mehefin 2008, cyhoeddodd Syr Michael Pitt ei adroddiad terfynol ar y gwersi a ddysgwyd o'r argyfwng llifogydd a welwyd ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2007. Byddai'r adolygiad hwn yn ystyried ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i'r materion a godwyd yn Adolygiad Pitt. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei gynllunio i ddilyn fy adolygiadau cyfredol o gynllunio at argyfwng ac erydiad arfordirol a llifogydd llanw. |

| Adolygiadau sy'n benodol i sector/pwnc − plant, addysg a dysgu gydol oes | |
|---|---|
| **Y System Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol (NPFS) mewn addysg ôl-16**<br>Mae'r NPFS yn system cynllunio ac ariannu ar gyfer yr holl ddysgu ôl-16 oed yng Nghymru, ac eithrio Addysg Uwch, ac mae wedi'i chynllunio i gynllunio ac ariannu Dysgu Cymunedol, dysgu mewn Sefydliadau Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a dysgu mewn Dosbarthiadau Chweched Dosbarth. Nod y system, a ddechreuodd yn 2004, yw sicrhau agwedd fwy cyson tuag at ariannu ym mhob un o'r sectorau gwahanol hyn. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried y ffordd y cafodd y system ei gweithredu a'r graddau y mae wedi cyflawni ei nod gwreiddiol o gysylltu ariannu ag amcanion polisi mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 mewn ffordd gydlynol, hyblyg ac ymatebol. Byddai'r gwaith hwn yn adeiladu ar fy adroddiad dilynol sydd ar ddod ar ddysgu seiliedig ar waith a chyfranogiad staff Swyddfa Archwilio Cymru fel arsylwyr ar y bwrdd prosiect meincnodi ôl-16. | **Rheoli ariannol mewn ysgolion**<br>Ar gyfer 2009-10, mae tua £1.8 biliwn o wariant awdurdodau lleol yn cael ei ddirprwyo i ysgolion yng Nghymru.<br>Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Comisiwn Archwilio adroddiad a ddaeth i'r casgliad bod atebolrwydd ar gyfer gwariant mewn ysgolion yn Lloegr wedi bod yn wan. Gallai'r sefyllfa fod yn waeth yng Nghymru, lle nad yw pwerau i gyflwyno Adroddiadau Ariannol Cyson ar gyfer ysgolion wedi'u gweithredu a lle nad oes unrhyw safon rheolaeth ariannol mewn ysgolion. O 2010, ni fydd Estyn yn arolygu gwasanaethau cymorth i ysgolion mwyach (yn cynnwys gwasanaethau ariannol) fel rhan o arolygiadau Awdurdodau Addysg Lleol. Felly, gallai adolygiad o drefniadau rheoli ariannol mewn ysgolion yn 2010-11 fod yn amserol. Hefyd, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru eisoes yn cefnogi Estyn gyda'i waith ar rôl bwrsariaid ysgol. |
| **Y Cyfnod Sylfaen**<br>Erbyn mis Medi 2011, bydd y Cyfnod Sylfaen yn disodli'r hyn a alwyd yn flaenorol yng Nghymru yn Addysg Blynyddoedd Cynnar (ar gyfer pob plentyn rhwng tair a phum mlwydd oed) a Chyfnod Allweddol 1 o'r Cwricwlwm Cenedlaethol (ar gyfer pob plentyn rhwng pump a saith oed). Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi mwy o bwyslais nag yn flaenorol ar 'ddysgu drwy brofiadau', drwy ddefnyddio 'dulliau datrys problemau bywyd go iawn' fel cyfrwng dysgu. Ar gyfer plant hŷn yn arbennig, bydd mwy o bwyslais ar chwarae a llai o bwyslais ar ddysgu wrth ddesg. Byddai'r astudiaeth hon yn gwerthuso cynnydd o ran gweithredu'r Cyfnod Sylfaen ac yn asesu a yw'r cynllunio ariannol sy'n sail i'r gwaith o'i gyflwyno'n llawn yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r broses o'i roi ar waith. Y ffordd orau o ymgymryd ag unrhyw waith yn y maes hwn fyddai mewn partneriaeth ag Estyn, gan ddefnyddio ei sylfaen dystiolaeth eang ar ansawdd darpariaeth mewn ysgolion. | **Cyfranogi mewn addysg uwch a'i chwblhau**<br>Nododd adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod cyfranogiad ehangach mewn addysg uwch yn Lloegr ym mis Mehefin 2008. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar p'un a oedd cyfranogiad ymhlith grwpiau a dangynrychiolwyd yn cynyddu, y camau gweithredu a oedd yn cael eu cymryd gan lywodraeth ganolog a sefydliadau eraill i annog cyfranogiad a'r rhwystrau cyffredinol at gyfranogi.<br>Byddai'r gwaith hwn yn ystyried materion tebyg yng nghyd-destun Cymru ac yn erbyn cefndir y dirywiad economaidd, gan ddefnyddio gwybodaeth ystadegol a nodwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. |

| Adolygiadau sy'n benodol i sector/pwnc − plant, addysg a dysgu gydol oes | |
|---|---|
| **Lleoedd gwag mewn ysgolion**<br>Mae lleoedd gwag mewn ysgolion yn broblem gyffredin sy'n wynebu awdurdodau addysg lleol ledled Cymru. Byddai'r adolygiad hwn yn cyflwyno asesiad clir a chyfoes o leoedd gwag mewn ysgolion yng Nghymru ac yn ystyried costau lleoedd gwag a'u heffaith. Byddai'r gwaith hwn hefyd yn ceisio nodi a rhannu arfer da o ran y ffordd y mae'r mater hwn yn cael ei drin yng Nghymru, neu mewn mannau eraill. | |
| **Adolygiadau sy'n benodol i sector/pwnc − dyfodol cynaliadwy** | |
| **Hyrwyddo twristiaeth**<br>Gan gysylltu'n agos â gwaith ar y dirywiad economaidd, byddai'r astudiaeth hon yn ystyried gwerth twristiaeth i'r economi yng Nghymru. Byddai hefyd yn archwilio'n feirniadol y buddsoddiad a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad a'r sector cyhoeddus ehangach yn y gwaith o hyrwyddo a rheoli twristiaeth. Gallai'r gwaith hwn gynnwys y pynciau canlynol:<br>• sicrhau buddiannau mwyaf posibl o ddigwyddiadau mawr;<br>• ehangu mynediad i asedau treftadaeth ddiwylliannol ac amgylcheddol Cymru a manteisio arnynt. | **Lleihau gwastraff**<br>Mae strategaeth wastraff arfaethedig Cymru 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yn nodi er y bydd cyfradd ailgylchu uchel o 70 y cant o leiaf ym mhob sector erbyn 2025 yn lleihau ôl-troed ecolegol Cymru, mae angen mwy o leihad mewn gwastraff nag sy'n bosibl drwy ailgylchu gwastraff trefol.<br>Yn dilyn fy ngwaith cyfredol ar ailgylchu a chompostio gwastraff trefol, ac yn gynnar ym mywyd y strategaeth wastraff newydd, byddai'r astudiaeth hon yn ystyried effeithiolrwydd cyfraniad y sector cyhoeddus at leihau swm y gwastraff a grëir yn y man cychwyn. |

| Adolygiadau sy'n benodol i sector/pwnc – dyfodol cynaliadwy | |
|---|---|
| **Cynnydd gyda Strategaeth Dai Cymru**<br>Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnal ymgynghoriad ar 'Cartrefi Cynaliadwy - Strategaeth Dai Genedlaethol i Gymru'. Byddai'r adolygiad hwn yn archwilio cynnydd wrth gyflawni elfennau o'r strategaeth honno, gan adeiladu ar gynlluniau cyfredol i gynnal astudiaeth ar Safon Ansawdd Tai Cymru. Gallai meysydd ffocws ar gyfer y dyfodol gynnwys:<br>• mynediad i dai cymdeithasol - yn cynnwys gwaith dilynol ar fy ngwaith blaenorol ar ddigartrefedd;<br>• effeithiolrwydd ac effaith consortia cymdeithasau tai;<br>• effeithlonrwydd ynni cartref a thlodi tanwydd - yn dilyn fy ngwaith blaenorol ar y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref;<br>• gorfodi gofynion mewn perthynas â thai sector preifat;<br>• trefniadau ar gyfer rheoleiddio pob darparwr tai cymdeithasol;<br>• gwaith adfywio a arweinir gan dai. | **Gwella'r broses o reoleiddio diogelwch bwyd**<br>Ym mis Mawrth 2009, cyhoeddodd yr Athro Hugh Pennington ei adroddiad ar yr ymchwiliad cyhoeddus i'r achosion o *E.coli* O157 a welwyd yn Ne Cymru ym mis Medi 2005. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i'r materion a godwyd yn adroddiad yr Athro Pennington. Yn benodol, byddai'r gwaith yn ystyried y camau a gymerwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ac awdurdodau lleol i atgyfnerthu gwaith gorfodi hylendid bwyd awdurdodau lleol. Gallai meysydd ffocws posibl eraill gynnwys trefniadau i gyflenwi bwydydd risg uchel, trefniadau wrth gefn darparwyr lleol y GIG i ddelio ag achosion o wenwyn bwyd, neu ddigonolrwydd cyfleusterau toiled a golchi dwylo mewn ysgolion. |
| **Datblygiadau o ran rheoli twbercwlosis buchol**<br>Nododd Llywodraeth y Cynulliad fod dros 12,000 o wartheg wedi'u lladd yng Nghymru yn 2008 o ganlyniad i dwbercwlosis buchol. Dim ond 669 o wartheg a laddwyd yn 1997. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi amcangyfrif hefyd y gallai'r gost o roi iawndal i ffermwyr fod yn fwy nag £80 miliwn erbyn 2014. Byddai'r astudiaeth hon yn asesu costau ac effeithiolrwydd ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad i reoli achosion o dwbercwlosis buchol. Wrth wneud hynny, byddai'r gwaith hwn yn ystyried datblygiadau ers i adroddiad y Comisiwn Archwilio ar roi iawndal i ffermwyr ar gyfer twbercwlosis buchol gael ei gyhoeddi yn 2004 a datblygiadau mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw. | **Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy Glasdir (cynllun dilynol i Tir Gofal)**<br>Ym mis Mai 2009, cyhoeddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig y byddai'r broses o ariannu cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru yn cael ei hailstrwythuro. Bydd y Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy newydd 'Glastir' yn cael ei gyflwyno ledled Cymru yn eu lle. Ym mis Medi 2008, cyflwynodd y Comisiwn Archwilio adroddiad ar Tir Gofal, prif gynllun amaeth-amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad. O dan Tir Gofal, telir ffermwyr i reoli tir amgylcheddol mewn ffordd sy'n fuddiol i'r amgylchedd. Daeth adroddiad y Comisiwn i'r casgliad bod arwyddion addawol bod Tir Gofal yn cyfrannu at gyflawni ei amcanion, ond bod effaith wirioneddol y cynllun yn anodd i'w hasesu, yn bennaf oherwydd cyfyngiadau o ran y sylfaen dystiolaeth. Roedd cynllun sylfaenol Tir Gofal yn gadarn, ond nid oedd y cynllun wedi'i deilwra'n ddigonol at anghenion penodol ac amodau lleol. Byddai'r adolygiad hwn yn ystyried a yw'r gwersi a ddysgwyd o Tir Gofal wedi'u cymhwyso'n llwyddiannus wrth gynllunio Glastir. |

| Adolygiadau sy'n benodol i sector/pwnc – economi a thrafnidiaeth | |
|---|---|
| **Cynnydd gyda Strategaeth Drafnidiaeth Cymru**<br>Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008, 'Cymru'n Un - Cysylltu'r Genedl', yn cydnabod bod systemau trafnidiaeth da yn atgyfnerthu bywyd economaidd a chymdeithasol y wlad ac yn diogelu'r amgylchedd. Yn dilyn ein gwaith cyfredol ar brosiectau trafnidiaeth mawr, byddai'r astudiaeth hon yn rhoi asesiad cynnar o gynnydd wrth gyflawni'r strategaeth drafnidiaeth, a'r Cynlluniau Trafnidiaeth Cenedlaethol a Rhanbarthol sy'n sail iddi. Byddem yn canolbwyntio ar un neu fwy o'r prif feysydd cynnydd allweddol yng ngham cyntaf y strategaeth:<br>• lleihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr ac effeithiau amgylcheddol eraill trafnidiaeth;<br>• integreiddio trafnidiaeth leol;<br>• gwella mynediad rhwng aneddiadau a safleoedd allweddol;<br>• gwella cysylltedd rhyngwladol;<br>• cynyddu diogelwch. | **Gwaith adfywio dilynol**<br>Ym mis Awst 2005, cyhoeddais ganlyniadau adolygiad sylfaenol o waith adfywio awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad. Daeth yr adolygiad hwnnw i'r casgliad bod pob cyngor yn ymgymryd â gwaith adfywio i raddau fwy neu lai, a bod llawer ohonynt yn cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg hefyd y gallai gwaith adfywio yng Nghymru fod yn fwy effeithiol, effeithlon a chynaliadwy. Byddai'r gwaith dilynol hwn yn ystyried a yw cyfraniad y sector cyhoeddus at waith adfywio yng Nghymru wedi gwella ers 2005.<br>Un maes ffocws posibl fyddai effaith y newid yn ymagwedd Llywodraeth y Cynulliad i dargedu arian adfywio a hyrwyddo ymagwedd gyfannol drwy'r rhaglen Ardal Adfywio Strategol. Byddai'r gwaith hwn yn cysylltu'n agos hefyd â'n gwaith diweddar ar Cymunedau yn Gyntaf a'n gwaith cyfredol ar Arian Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd 2007-13. |
| **Cynnal a chadw priffyrdd**<br>Mae priffyrdd o ansawdd uchel ledled Cymru yn hanfodol o ran darparu gwasanaethau, adfywio, twristiaeth a diogelwch ar y ffyrdd. Byddai'r astudiaeth hon yn dilyn fy ngwaith parhaus ar reoli asedau yn y sector cyhoeddus a byddai'n ategu fy adolygiad cyfredol o brosiectau trafnidiaeth mawr. Byddai'n canolbwyntio ar p'un a yw trefniadau awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer rheoli'r broses o gynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd yn rhoi gwerth am arian. | |

| Adolygiadau sy'n benodol i sector/pwnc − iechyd a gwasanaethau cymdeithasol | |
|---|---|
| **Datblygu gwasanaethau iechyd cymunedol**<br>Mae gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y GIG a nodwyd yn 'Cynllun Oes' yn amlygu pwysigrwydd datblygu gofal cymunedol effeithiol er mwyn osgoi gorddibynnu ar y sector acíwt a darparu gofal yn agosach at gartrefi cleifion. Byddai'r adolygiad hwn yn ystyried y cynnydd y mae byrddau iechyd yn ei wneud wrth ddatblygu gwasanaethau cymunedol fel rhan o fodelau gofal system gyfan a chydlynol. Byddai'n ystyried effeithiolrwydd gwasanaethau cymunedol wrth helpu i osgoi derbyniadau diangen i ysbytai a chefnogi'r broses o ryddhau cleifion o ysbytai yn amserol.<br>Gellid ystyried y pwnc hwn ar ei ben ei hun, fel rhan o unrhyw waith dilynol a wneir ar gyflyrau cronig yn y dyfodol, neu fel rhan o adolygiad ehangach o wireddu buddiannau yn dilyn ad-drefnu'r GIG. | **Gofal iechyd parhaus**<br>Mae'r costau sy'n gysylltiedig â darparu gofal iechyd parhaus yn sylweddol ac maent yn rhoi pwysau cynyddol ar gyllidebau sefydliadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.<br>Mae anghydfodau rhwng y sefydliadau hyn ynghylch pwy ddylai dalu am ofal iechyd parhaus yn gyffredin. Mae adroddiadau'r Ombwdsmon wedi amlygu problemau hefyd o ran defnyddio meini prawf cymhwysedd a'r anghyfiawnder posibl a wynebir gan yr henoed neu bobl anabl sy'n gorfod talu am eu gofal eu hunain. Byddai'r adolygiad hwn yn ystyried costau gofal iechyd parhaus yng Nghymru a ph'un a yw cyrff y GIG ac awdurdodau lleol yn defnyddio meini prawf cymhwysedd yn gyson ac yn gywir.<br>Byddai'r adolygiad hefyd yn ystyried effaith y broses o ad-drefnu'r GIG a'r heriau penodol sy'n gysylltiedig â'r rhwystrau ar wariant cyhoeddus yn y dyfodol. |
| **Ad-drefnu'r GIG - safbwyntiau cynnar ar weithredu'r diwygiadau**<br>Yn dilyn fy ngwaith i ategu'r broses o ad-drefnu'r GIG, byddai'r adolygiad hwn yn rhoi sylwebaeth gynnar ar effeithiolrwydd y trefniadau cenedlaethol a lleol i weithredu'r agenda newid sylweddol yn y GIG. Byddai meysydd ffocws posibl yn cynnwys:<br>• cadernid strwythurau sefydliadol a llywodraethu yng nghyrff newydd y GIG;<br>• adolygiad o'r trefniadau cadw a diswyddo ar gyfer uwch aelodau o staff sydd wedi'u dadleoli o ganlyniad i'r broses ad-drefnu. | **Rôl nyrsio wrth ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion**<br>Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn cael gofal ardderchog ond nid yw'r gofal a dderbynnir gan rai yn cyrraedd safonau derbyniol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru ac AGIC wedi nodi'r potensial i gyflwyno gwaith ar y cyd sy'n ystyried y cyfraniad y mae gofal nyrsio yn ei wneud i brofiad y claf, ynghyd â'r ffactorau sy'n effeithio ar y gofal y gall nyrsys ei ddarparu. Byddai'r adolygiad yn ystyried i ba raddau y mae'r gweithgareddau allweddol a nodir yn y ddogfen *Hanfodion Gofal* yn cael eu cyflawni a sut y gall y fenter newydd *Rhyddid i Arwain, Rhydd i Ofalu* wella gofal cleifion. Dadansoddir lefelau staffio a chymysgedd sgiliau i helpu i ddeall y ffactorau a all gyfrannu at amrywiadau annerbyniol mewn ansawdd gofal. |

| Adolygiadau sy'n benodol i sector/pwnc − iechyd a gwasanaethau cymdeithasol | |
|---|---|
| **Rheoli meddyginiaethau**<br>Mae gwariant ar feddyginiaethau yn GIG Cymru yn sylweddol. Gwnaeth meddygon teulu yn unig ragnodi (a dosbarthu) neu ddosbarthu gwerth dros hanner biliwn o bunnoedd o eitemau wedi'u rhagnodi, yn cynnwys meddyginiaethau, yn 2008-09. Bydd sicrhau y defnyddir meddyginiaethau mewn ffordd ddiogel, effeithiol a darbodus yn her allweddol i'r byrddau iechyd newydd. Byddai'r archwiliad hwn yn nodi'r cwmpas ar gyfer sicrhau gwelliannau o ran costau ac ansawdd wrth reoli meddyginiaethau yn y GIG, gyda'r potensial ar gyfer camau gwaith cysylltiedig yn y sector gofal sylfaenol a'r sector ysbytai. Gallai'r adolygiad gynnwys archwiliad o effeithiolrwydd dulliau cymorth cenedlaethol megis cyngor ar ragnodi cyffuriau newydd a gwybodaeth am ragnodi i ymarferwyr a rheolwyr y GIG. | **Datblygu gweithlu'r GIG**<br>Mae cynlluniau effeithiol ar gyfer datblygu'r gweithlu yn hanfodol fel sail i strategaethau lleol a chenedlaethol i foderneiddio a gwella gwasanaethau iechyd. Byddai'r adolygiad hwn yn ystyried effeithiolrwydd y gwaith o gynllunio a datblygu'r gweithlu ym mhob rhan o GIG Cymru. Byddai meysydd ffocws posibl yn cynnwys y graddau y mae'r buddiannau yn cael eu gwireddu yn sgîl gweithredu'r Agenda ar gyfer Newid a mentrau eraill, megis y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau. Gallai'r adolygiad hefyd ystyried effeithiolrwydd sefydliadau'r GIG wrth ddatblygu rolau newydd i helpu i foderneiddio gwasanaethau a gwella gofal ar gyfer cleifion. |
| **Gwasanaethau diagnostig y GIG**<br>Mae gwasanaethau diagnostig yn rhan hanfodol o'r system gofal iechyd. Maent yn helpu cleifion i gael diagnosis cywir a'r driniaeth gywir. Gall y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau diagnostig megis radioleg, endosgopeg a phatholeg fod yn sylweddol a bydd y broses o ddarparu'r gwasanaethau hyn yn effeithlon ac yn effeithiol yn ffactor allweddol wrth gyflawni'r targedau amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth a nodwyd ar gyfer GIG Cymru. Byddai'r adolygiad hwn yn ystyried effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau radioleg, endosgopeg a phatholeg gan ganolbwyntio ar ddangosyddion allweddol megis defnyddio staff ac offer, cyfradd ailbrofi, defnyddio sesiynau a bodolaeth systemau gwybodaeth reoli cadarn. | |

| Adolygiadau sy'n benodol i sector/pwnc- Gweinyddiaeth Llywodraeth y Cynulliad | |
|---|---|
| **Y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol (SCIF)**<br>Yn ogystal â dyraniadau cyfalaf adrannol, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi neilltuo cyllideb SCIF gwerth dros £400 miliwn dros y cyfnod 2008-09 i 2010-11. Nod SCIF yw ariannu prosiectau arloesol, croestoriadol a chyfalaf strategol. Byddai'r adolygiad hwn yn ystyried y trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli SCIF, ei heffeithiau a'i chydberthynas â rhaglenni buddsoddi cyfalaf eraill.<br>Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau adolygiad cychwynnol o SCIF fel rhan o'n harchwiliad o Gyfrif Adnoddau Cyfunol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2008-09. | **Strategaeth adleoli Llywodraeth y Cynulliad**<br>Mae elfennau allweddol o strategaeth adleoli Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnwys datblygu swyddfeydd newydd ym Merthyr Tudful, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Mae'r strategaeth adleoli wedi'i sbarduno gan ddyhead i wella mynediad i wasanaethau Llywodraeth y Cynulliad, cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fusnes Llywodraeth y Cynulliad a'u cyfranogiad ynddo, ailddosbarthu cyfoeth a hyrwyddo cyfleoedd swyddi a gyrfa tecach. Byddai'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar p'un a oes tystiolaeth bod y buddiannau hyn a buddiannau eraill yn cael eu gwireddu, o gymharu â chostau adleoli. |

**Jeremy Colman**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

8 Hydref 2009

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk